Paul Davies Aelod o'r Senedd
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

24 Mehefin 2024

*Drwy e-bost at:* [SeneddEconomi@senedd.cymru](mailto:SeneddEconomi@senedd.cymru)

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr a chwestiynau ychwanegol am y ddogfen fframwaith.

Yn ein tystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, cyfeiriodd ein Cyfarwyddwr Buddsoddi, Rhian Elston at ein canllawiau gweithredu buddsoddi sy'n ddogfennau mewnol i Fanc Datblygu Cymru.

Mae gan bob cronfa a reolir gan y Banc Datblygu ei chanllawiau gweithredu ei hun, y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru yn ystod cyfnod dechreuol cronfa, sy'n nodi paramedrau'r gronfa gan gynnwys meysydd fel telerau buddsoddi, adrodd a chymhwysedd sector.

Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys llinell gyffredinol bod gweithgareddau a allai ddwyn anfri ar y Banc Datblygu neu Lywodraeth Cymru yn cael eu heithrio. Yn ymarferol, ac mewn nifer cyfyngedig iawn o achosion, ceisir barn Llywodraeth Cymru am weithgarwch busnes lle mae pryder wedi'i nodi gan dîm y bartneriaeth.

Fel yr ydych wedi nodi, yn unol â'r cytundeb fframwaith, gwneir penderfyniadau buddsoddi yn annibynnol i Lywodraeth Cymru (3.22) ac yn unol â chytundebau'r gronfa a'r dogfennau cysylltiedig (4.19, 4.20). Roedd cynllun corfforaethol 2022/27 yn nodi ein cynlluniau i gynyddu ffocws ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ACLl) fel rhan o wneud penderfyniadau buddsoddi (t37) a daethom yn llofnodwyr i Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol a gefnogir gan y Cenhedloedd Unedig yn 2023.

Hyderaf fod hyn wedi egluro'r trefniadau sydd ar waith,

Yr eiddoch yn gywir,

Giles Thorley
Prif Weithredwr

**Banc Datblygu Cymru ccc**
Uned J, Pentref Busnes Iâl, Ffordd Ellice, Wrecsam LL13 7YL
gwyb@bancdatblygu.cymru | bancdatblygu.cymru

Mewn Partneriaeth â
**Llywodraeth Cymru**
In Partnership with
**Welsh Government**

Banc Datblygu Cymru ccc yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru ag enwau gan gynnwys y blaenlythrennau BDC. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo'n gyfan gwbl i Weinidogion Cymru ac nid yw wedi'i awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (ARhD) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Fanc Datblygu Cymru dri is-gwmni sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr AYA. Sylwch nad yw Banc Datblygu Cymru ccc nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio nac yn gweithredu felly. Mae hyn yn golygu na all unrhyw un o endidau'r grŵp dderbyn blaendaliadau gan y cyhoedd. Mae siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc ar gael yn [www.bancdatblygu.cymru](http://www.bancdatblygu.cymru)
Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr dan rif 4055414 yn Uned J, Pentref Busnes Iâl, Ffordd Ellice, Wrecsam LL13 7YL.